

POLISI A GWEITHDREFNAU

DIOGELU DATA

Fersiwn 8 Mai 2019
Mae'r polisi hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Cynnwys

RHAGAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR	3
GWYBODAETH BERSONOL – EIN HADDEWID	4
CYFRIFOLDEB PERTHNASOL I'R DDEDDF	5
CWMPAS.....	6
CADW AT 6 EGWYDDOR Y DDEDDF	7
RHEOLI GWYBODAETH YN SIR DDINBYCH	9
HAWLIAU UNIGOLION.....	10
CEISIADAU GWRTHRYCH AM WYBODAETH	10
RHANNU GWYBODAETH	13
SAITH RHEOL EURAIDD.....	14
DELWEDDAU TCC.....	15
FFURFLENNI IECHYD GALWEDIGAETHOL.....	16
CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG	16
PROESU DATA PERSONOL DRWY GWMNI ALLANOL.....	17
HYSBYSIADAU PREIFATRWYDD	17
DEFNYDD O E-BOST A DIOGELU DATA	18
COFRESTR ASEDAU GWYBODAETH.....	18
AMSERLEN CADW DOGFENNAU CORFFORAETHOL.....	18
ACHOSION O DORRI RHEOLAU DIOGELWCH DATA.....	18
TREFNIADAU AROLYGU AC ADOLYGU'R POLISI	19
CWYNION	19
MANYLION CYSWLLT.....	19
ATODIAD: PANEL HAWL I WYBODAETH	21

RHAGAIR GAN Y PRIF WEITHREDWR

Wrth ddarparu ei wasanaethau bydd yn ofynnol i Gyngor Sir Ddinbych gasglu a phrosesu rhai mathau penodol o wybodaeth am bobl, gan gynnwys cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaethau, staff y Cyngor, disgyblion ysgol a rhai sy'n cyflenwi neu'n darparu gwasanaethau iddo. Bydd yr holl brosesu o'r fath yn unol â Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r polisi hwn a gyhoeddir yn amlinellu bwriadau'r Cyngor wrth gyflawni ei rwymedigaethau.

Mae rhaglenni trawsnewid a rhannu gwasanaethau wedi cyflwyno gofynion sy'n cynyddu'n barhaus i rannu data personol er mwyn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd. Yn amlwg, mae angen i wasanaethau cyhoeddus gadw'r wybodaeth hon yn ddiogel ond mae hyn yn rhywbeth llawer ehangach na diogelwch priodol, ac mae'n gofyn am ddull cynhwysfawr o gasglu, defnyddio, rhannu a chadw gwybodaeth bersonol, er mwyn meithrin hyder y cyhoedd. Wedi ei gyfuno â'r ddibyniaeth ar allu TGCh sy'n newid yn gyflym a'r angen i storio symiau enfawr o ddata, mae'n hollbwysig bod gan Gyngor Sir Ddinbych y ddogfen drosfwaol, wedi'i hysgrifennu mewn iaith ddealladwy sy'n nodi dull o Gyngor o ddiogelu data a rhannu data yn glir; ac sy'n egluro hawliau'r unigolyn mewn perthynas â'r wybodaeth sydd gennym amdanyn nhw. Bydd cyhoeddi polisi clir ac eglur a chael y dull cywir o godi ymwybyddiaeth staff a gwella eu sgiliau wrth iddyn nhw drin gwybodaeth bersonol, yn cael ei ystyried yn rhan annatod o hyrwyddo ffydd y cyhoedd yn y modd mae'r Cyngor yn ymdrin â'r data personol a roddwyd i'w ofal.

Rydym i gyd wedi clywed am fethiannau diogelu data proffil uchel, a bydd llawer o swyddogion sy'n trin data personol sensitif yn ymwybodol o bwerau'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddirwyo awdurdodau hyd at gyfwerth ag 20 miliwn ewro am fethiannau difrifol. Fodd bynnag mae'r bai am lawer o'r methiannau sy'n cael eu hadrodd, yn syml iawn, yn sgil camgymeriadau dynol, er enghraifft rhoi'r rhif ffacs anghywir, anfon e-bost i'r cyfeiriad anghywir neu beidio â gwirio data personol cyn ei bostio, gadael dogfennau sensitif yn y car neu beidio gwirio hunaniaeth rhywun dros y ffôn. Mae modd osgoi'r camgymeriadau hyn drwy i swyddogion ac aelodau fod yn fwy gofalus wrth gyflawni eu dyletswyddau a thrin gwybodaeth bersonol pobl eraill fel y byddent yn trin eu gwybodaeth bersonol eu hunain.

Ymrwymodd y Cyngor i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yn 2011, sy'n berthnasol i rannu data ar draws amryw o asiantaethau yng Nghymru. Bydd yr ymagwedd bolisi genedlaethol hon hyd yn oed yn bwysicach, wrth i ni barhau i weithio ar y cyd er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus wedi eu cyd-gysylltu o fewn ein hadnoddau.

Mae'n bleser gen i gefnogi'r 'Addewid Gwybodaeth Bersonol' a amlinellir dros y dudalen. Mae'n fath o ddatganiad cenhadaeth, ar gyfer trin gwybodaeth bersonol wedi'i anelu at y rhai hynny y mae gennym wybodaeth bersonol amdanynt. Os bydd problem yn codi mewn perthynas â chydymffurfiad, byddwn yn ystyried a ydym yn cyflawni'r addewid hwn, ac rwy'n annog yr holl staff i ddarllen yr addewid gan ei fod yn nodi rhwymedigaethau Deddf Diogelu Data 2018 mewn iaith glir y gall pob un ohonom ei deall a'i rhoi ar waith.

GWYBODAETH BERSONOL – EIN HADDEWID

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn addo y bydd yn:

- 1.** Gwerthfawrogi'r wybodaeth bersonol sydd wedi ei rhoi yn ein gofal ac yn parchu'r ymddiriedaeth honno;
- 2.** Mynd ymhellach na dim ond llythyren y ddeddf wrth ymdrin â gwybodaeth bersonol ac yn arddel safonau ymarfer da.
- 3.** Ystyried a mynd i'r afael â'r risgiau preifatrwydd yn gyntaf pan fyddwn yn gwneud cynlluniau ar gyfer defnyddio neu ddal gwybodaeth bersonol mewn ffyrdd newydd, er enghraifft wrth roi systemau newydd ar waith;
- 4.** Bod yn agored gydag unigolion ynglŷn â'r ffordd yr ydym yn defnyddio eu gwybodaeth ac i bwy yr ydym yn ei rhoi;
- 5.** Ei gwneud yn hawdd i unigolion gael mynediad at eu holl wybodaeth bersonol;
- 6.** Cadw cyn lleied â phosibl o wybodaeth bersonol a'i dileu pan nad oes bellach ei hangen;
- 7.** Sicrhau bod mesurau diogelu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y cedwir gwybodaeth yn ddiogel ac nad yw'n mynd i'r dwylo anghywir;
- 8.** Darparu hyfforddiant i staff sy'n trin gwybodaeth bersonol a'i drin fel mater disgyblu os ydynt yn ei chamddefnyddio neu nad ydynt yn edrych ar ôl gwybodaeth bersonol yn gywir;
- 9.** Buddsoddi arian ac adnoddau dynol priodol mewn gofalu am wybodaeth bersonol er mwyn sicrhau y gallwn wireddu ein haddewidion; a
- 10.** Gwirio'n rheolaidd ein bod yn gwireddu ein haddewidion a rhoi gwybod pa mor dda rydym yn ei wneud.

CYFLWYNIAD

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cydymffurfio drwy gydol yr amser â'i dyletswyddau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a'r hawl i breifatrwydd a pharch tuag at fywyd personol a theuluol a nodir yn Erthygl 8 Deddf Hawliau Dynol 1998.

Mae Deddf Diogelu Data 2018 (y Ddeddf) yn ymgorffori Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) ac yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar sefydliadau sy'n casglu a defnyddio gwybodaeth bersonol ac yn rhoi hawliau mynediad penodol i unigolion. Yn ychwanegol, mae gofynion mwy llym yn y Ddeddf o ran prosesu 'data categori arbennig'. Gellir cadw gwybodaeth bersonol ar unrhyw fformat e.e. electronig, cofnodion papur, delweddau TCC neu ffotograffig, ac mae'r Ddeddf yn berthnasol waeth ym mha fformat y mae'r wybodaeth yn cael ei chadw.

CYFRIFOLDEB PERTHNASOL I'R DDEDDF

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau y bydd pob aelod o staff, gan gynnwys staff asiantaeth, aelodau etholedig, gwirfoddolwyr, a chontractwr yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mae'r Cyngor llawn wedi penodi Swyddog Diogelu Data (DPO) statudol sy'n gyfrifol am sicrhau cydymffurfriad â'r Ddeddf, gyda chymorth y Tîm Gwybodaeth Fusnes a Phanel Hawl i Wybodaeth y Cyngor a'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio'r Cyngor sydd wedi ei benodi'n Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth. (SIRO). Enwebwyd Swyddog Rheoli Gwybodaeth o fewn pob gwasanaeth hefyd. Mae Cynllun Dirprwyo Swyddogion y Cyngor yn amlinellu'n glir fod cyfrifoldeb ar bob Pennaeth Gwasanaeth am gydymffurfio â'r Ddeddf, a phenderfyniadau'r Panel Hawl i Wybodaeth ynghylch rhyddhau neu ddal gwybodaeth yn ôl. Rhaid i'r holl staff gwblhau hyfforddiant gorfodol y Cyngor ar Ddiogelu Data.

Mae polisi ar wahân ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol. Os ceir cais o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol sydd mewn gwirionedd yn dod o dan y trefniadau Diogelu Data, bydd y Cyngor yn cyfeirio'r cais yn awtomatig drwy'r polisi priodol, fel y mae'n ofynnol iddo wneud, oherwydd bod gwahanol esemptiadau ac felly gwahanol hawliau cyfreithiol yn bodoli dan yr amgylchiadau. Mewn rhai achosion, gall cais fod yn berthnasol i ddau neu ragor o'r trefniadau hyn; yn y sefyllfa hon, efallai y bydd rhywfaint o wybodaeth er enghraifft yn cael ei dal yn ôl dan un cyfundrefn, ond yn cael ei rhyddhau dan yr un arall.

Bydd y prawf lles y cyhoedd, sy'n berthnasol i ddiogelu data a rhyddid gwybodaeth; yn gydran allweddol yn ein penderfyniadau, i alluogi'r cyhoedd a dinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau, i gael hyder ein bod yn cyflawni ein swyddogaethau i'r ansawdd a'r safon ofynnol.

Mae gan Ysgolion Sir Ddinbych eu polisi diogelu data eu hunain, a bydd unrhyw gais o'r fath a dderbynnir gan y Cyngor am wybodaeth ysgolion yn cael ei gyfeirio at yr ysgol dan sylw i'w brosesu.

Mae aelodau etholedig yn rheolyddion data ynddynt eu hunain mewn perthynas â phrosesu mewn perthynas â'u ward a'u hetholwyr, fodd bynnag, pan maent yn prosesu gwybodaeth y Cyngor, y Cyngor yw'r rheolydd data. Gall Cynghorwyr ddefnyddio system e-bost y cyngor ar gyfer prosesu ar gyfer y cyngor a'r ward. Mae hyfforddiant ar gael ar eu rhwymedigaethau.

CWMPAS

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r holl wybodaeth bersonol a gedwir ar unrhyw fformat wedi'i gofnodi e.e. nodiadau a ysgrifennwyd â llaw, e-bost, papur, fideo, TCC neu ddelweddau ffotograffig ac mae'n berthnasol i bob swyddog, (gan gynnwys staff asiantaeth a staff dros dro), gwirfoddolwyr ac aelodau etholedig, sy'n prosesu data personol ar neu ar ran y cyngor. Mae'n drosedd dinistrio gwybodaeth bersonol os mai bwriad hynny yw osgoi dadlennu'r wybodaeth ar ôl cael cais i wneud hynny. Gallai gwrthod datgelu gwybodaeth hefyd fod yn drosedd ddisgyblu lle ceir cyngor i ryddhau'r wybodaeth honno.

CADW AT 6 EGWYDDOR Y DDEDDF

Y sail i drefn y Ddeddf Diogelu Data yw'r 6 egwyddor sylfaenol benodol sy'n god ar gyfer prosesu data personol yn y modd cywir. Mae prosesu yn golygu unrhyw beth rydym yn ei wneud gyda data; fel cael gafael ar, copïo, datgelu, addasu, cadw neu ddinistrio gwybodaeth. Os na allwn gydymffurfio a phob un o'r 6 egwyddor, yna ni ddylem fod yn prosesu'r data. Mae'r egwyddorion wedi eu crynhoi yn y diagram isod: -

Y 6 EGWYDDOR DIOGELU DATA

1. Rhaid prosesu data personol yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw

2. Cesglir data personol at ddibenion penodol, amlwg a chyfreithlon

3. Bydd y data personol yn ddigonol, yn berthnasol ac wedi'i gyfyngu i'r hyn sydd angen

4. Rhaid i ddata personol fod yn gywir ac wedi'i ddiweddarau


5. Cedwir data personol yn y fath fodd fel na ellir adnabod unigolion yn ddim hwy nag sydd angen

6. Cedwir data personol gan sicrhau diogelwch priodol

Bydd y Cyngor yn sicrhau: -

- Fod ganddo weithdrefnau ar gyfer cydymffurfio â'r chwe egwyddor
- Bod pob aelod newydd o staff yn cael hyfforddiant diogelu data priodol yn ystod eu cwrs cyflwyno a bod hyfforddiant ac arweiniad gloywi yn cael eu darparu o dro i dro, fel bod staff yn deall bod arnynt ddyletswydd gytundebol dros gydymffurfio â'r gyfraith ac yn gwybod sut i brosesu gwybodaeth yn unol â'r 6 egwyddor hon.
- Rhoddir hyfforddiant lefel uwch i'r Swyddogion hynny sy'n ymdrin â gwybodaeth bersonol sensitif dros ben, fel y gwasanaethau cymdeithasol. Bod mapio anghenion hyfforddiant yn digwydd, er mwyn nodi'r swyddogion hynny sydd angen hyfforddiant uwch ar ddiogelu data a rhannu gwybodaeth, er mwyn eu galluogi i rannu gwybodaeth yn hyderus ac yn unol â WASPI lle bo hynny'n berthnasol.
- Mae ar bawb sy'n gofalu am ac yn trin data personol gyfrifoldeb unigol ac ar y cyd dros gydymffurfio â'r polisi hwn.
- Gallai methu â dilyn y polisi hwn arwain at gamau disgyblu neu hyd yn oed erlyniad troseddol yn erbyn swyddog os caiff y polisi ei dorri'n fwriadol.
- Bod unigolion yn cael eu hysbysu ynghylch y dibenion y caiff y data eu defnyddio ar eu cyfer ac y caiff y sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth ei gweithredu.
- Mae'r holl staff wedi eu hyfforddi i adnabod y cais gwrthrych am wybodaeth a beth i'w wneud ar ôl cael gwybodaeth arbenigol gan Swyddog Diogelu Data'r Cyngor.
- Bydd yr holl gamau diogelwch technegol a sefydliadol priodol yn cael eu sefydlu i ddiogelu gwybodaeth, gan gynnwys amgryptio neu sicrhau bod gosodiadau diogelwch dyfeisiadau symudol fel gliniaduron a ffonau symudol yn cael eu huwchraddio a chyfyngu ar y defnydd o ffyn cof yn unol â Pholisi Diogelu Gwybodaeth y Cyngor.
- Mae disgwyl i'r holl staff roi gwybod i'w rheolwr atebol, y DPO a'r SIRO am ddigwyddiadau diogelwch gwybodaeth, gan gynnwys methiannau fu bron a digwydd.

RHEOLI GWYBODAETH YN SIR DDINBYCH



Caiff dinasyddion eu diogelu a'u hysbysu

HAWLIAU UNIGOLION

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn sicrhau y gall unigolion arfer eu hawliau fel y'u nodir yn y Ddeddf, gan gynnwys:-

- yr hawl i gael gwybod beth yw pwrpas y prosesu;
- y categorïau o ddata personol sy'n cael eu prosesu;
- yr hawl i bobl gael gweld eu gwybodaeth bersonol;
- pwy fydd neu sy'n debygol o dderbyn eu gwybodaeth;
- y cyfnod y rhagwelir y bydd y data'n cael ei gadw;
- yr hawl i atal prosesu data personol dan rai amgylchiadau penodol;
- yr hawl i unioni, atal, dileu, cyfyngu, gwrthwynebu neu gywiro gwybodaeth anghywir;
- yr hawl i wneud cwyn;

Mae'r hawliau hyn yn berthnasol i bob unigolyn byw y mae modd eu hadnabod y mae'r Cyngor yn prosesu gwybodaeth bersonol yn eu cylch, fel ein cwsmeriaid, staff, trigolion, dinasyddion sy'n derbyn gwasanaethau neu Gynghorwyr.

CEISIADAU GWRTHRYCH AM WYBODAETH

Dylid anfon pob cais am wybodaeth at Dîm Gwybodaeth Busnes y Cyngor, gellir gwneud hyn yn ysgrifenedig drwy'r post neu ar-lein ar wefan y Cyngor, bydd y cais yn cael ei gofnodi a'i gyfeirio at y gwasanaeth perthnasol i'w goladu a'i adalw. Gall dinasyddion wneud ceisiadau ar lafar, er y byddai'r Cyngor yn annog ymgeiswyr i ddefnyddio'r ffurflen gais safonol er mwyn cynorthwyo swyddogion i gael yr wybodaeth gywir ac osgoi unrhyw ddryswch.

Nid yw'r GPDR yn amlinellu gwahanol weithdrefnau ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol neu addysg er enghraifft; felly bydd gweithdrefnau corfforaethol safonol yn berthnasol i bob un o wasanaethau'r Cyngor.

Mae Erthygl 15 o'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion gael gwybod gan y Rheolydd Data (y sefydliad sy'n pennu'r pwrpas dros, ac ym mha fodd y caiff gwybodaeth bersonol ei phrosesu)

- cael gwybod os oes gwybodaeth yn cael ei chadw amdanynt,
- i ba bwrpas y defnyddir yr wybodaeth,
- i gael copi o'r wybodaeth, boed yn wybodaeth y cyngor neu'n wybodaeth trydydd parti,
- cael manylion sefydliadau neu bobl eraill yr ydym yn datgelu'r wybodaeth iddynt
- bod data anghywir yn cael ei gywiro
- gofyn na chaiff gwybodaeth bersonol amdanynt nhw eu hunain ei defnyddio i ddibenion marchnata uniongyrchol

- cael iawndal am niwed neu ofid os na chydymffurfir â'r Ddeddf
- gwrthwynebu penderfyniadau a wneir drwy ddulliau awtomataidd yn unig - er enghraifft lle nad oes unrhyw fewnbwn dynol.
- gofyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ymchwilio i, ac asesu a dorrwyd y Ddeddf.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn rhoi'r wybodaeth hon ar yr amod y gwneir y cais ar lafar neu'n ysgrifenedig; a bod yr ymgeisydd yn rhoi digon o wybodaeth i alluogi'r Cyngor i ddod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Rhaid cofnodi pob cais o'r fath, a dderbynnir gan bob gwasanaeth, gyda'r Tîm Gwybodaeth Fusnes a fydd yn goruchwyllo cydymffuriad o fewn terfynau amser cyfreithiol ac yn rhoi cyngor ar ddatgelu ceisiadau gwrthrych am wybodaeth, gyda chefnogaeth y Swyddog Diogelu Data neu'r gwasanaethau cyfreithiol lle bo angen.

Nid oes ffi yn daladwy a dylai'r Cyngor ymateb ymhen mis, oni bai fod y cais yn gymhleth neu'n lluosog, ac os felly gellir ymestyn y cyfnod o ddau fis arall. Mae'r cyfyngiad amser hwn o fis yn cynnwys sefyllfaoedd lle ceisir sylwadau gan drydydd parti; mae'n dal rhaid i'r Cyngor gydymffurfio â'r terfynau amser hyn, a lle nad oes sylwadau'n cael eu gwneud neu ganiatâd yn cael ei roi, yna mae'r ddeddf yn caniatáu'r Cyngor i wneud penderfyniad heb y fath sylwadau neu gydsyniad. Mynediad i wybodaeth bersonol amdanoch eich hun yw un o gonglfeini'r ddeddfwriaeth, ac mae hyn yn debyg o fod o bwys mwy na barn unrhyw drydydd parti, oni bai fod rheswm cyfreithiol gwirioneddol dros wrthod.

Os yw'r trydydd parti yn gwrthod cydsynio, nid yw hynny ar ei ben ei hun yn reswm i'r Cyngor wrthod datgelu'r wybodaeth. Ni ddylai dibyniaeth ar sicrhau cydsyniad trydydd parti chwaith fod yn rheswm dros oedi cyn prosesu'r cais. Mae'r penderfyniad ynghylch datgeliad yn un i'r Cyngor ac nid y trydydd parti.

Os yw'r Cyngor yn ymestyn yr amserlen i alluogi cydymffuriad â'r cais gwrthrych am wybodaeth, byddaf yn ysgrifennu at yr ymgeisydd yn rhoi gwybod iddynt am yr amgylchiadau, ac amlinellu'r rhesymau dros wneud hynny.

Bydd y Cyngor yn ymateb i geisiadau o'r fath o fewn mis oni bai fod y cais yn amlwg yn swmpus, yn amlwg yn ddi-sail neu'n ormodol. Nid oes diffiniad yn y Ddeddf ond o ran cais 'gormodol', derbynnir yn gyffredinol fod hyn yn golygu achosion lle byddai'r ymdrech y byddai'n rhaid i'r sefydliad ei wneud i gydymffurfio â'r gofyniad i roi copi o'r wybodaeth yn anghymesur â'r fantais i'r sawl fyddai'n derbyn y wybodaeth. Dan amgylchiadau o'r fath, bydd y Swyddog Diogelu Data yn ystyried gwrthod y cais a gall gyfeirio'r penderfyniad i wrthod i'r Panel Hawl i Wybodaeth.

Gan fod yr hawl i gael mynediad at wybodaeth amdanoch eich hun yn hanfodol i gyfraith diogelu data, prin iawn fydd yr amgylchiadau hynny lle gellir dibynnu ar ymdrech anghymesur. Dylid ceisio gwybodaeth gan y Tîm Gwybodaeth Busnes ac/ neu'r Swyddog Diogelu Data, yn yr achos cyntaf a phenderfyniad wedi ei gyfeirio i'r Panel Hawl i Wybodaeth.

Bydd y Cyngor yn cynnig gwybodaeth ar ffurf barhaol sy'n ddealladwy i'r ymgeisydd, oni bai y byddai cyflenwi'r fath gopi yn cynnwys ymdrech anghymesur, neu fod yr ymgeisydd yn cytuno fel arall. Lle bo modd, bydd y Cyngor yn annog trosglwyddiad diogel electronig, gan fod hyn yn fwy diogel ac yn fwy economaidd i bwrs y wlad.

Ffioedd

Mae'r GDPR ond yn caniatáu'r Cyngor i godi tâl gweinyddol am geisiadau sy'n amlwg yn ddi-sail neu'r ormodol. Polisi'r Cyngor yw y bydd yn gwrthod ceisiadau o'r fath ac felly ni fydd unrhyw ofyniad i godi ffi.

Ar hyn o bryd, nid oes grymoedd cyfreithiol yn caniatáu'r Cyngor i godi unrhyw dâl arall, bod yn weinyddol neu fel arall. Bydd y polisi hwn yn cael ei ddiweddarau pan gaiff unrhyw Reoliad o'r fath ei basio gan Senedd y DU. ¹

Beth am geisiadau am wybodaeth am blant a phobl ifanc dan 18 oed?²

Mae'r hawliau a nodir yn y paragraff uchod yr un mor berthnasol. Fodd bynnag, rhaid cofio hyd yn oed os yw plentyn rhy ifanc i ddeall goblygiadau hawliau cais gwrthrych am wybodaeth, hawl y plentyn yn hytrach nag unrhyw un arall, fel rhiant neu warcheidwad, yw hyn o hyd. Felly'r plentyn sydd â hawl i weld y wybodaeth a gedwir amdano, er yn achos plant ifanc mai'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant sy'n debygol o arfer yr hawliau hynny.

Cyn ymateb i gais gwrthrych am wybodaeth a gedwir am blentyn, dylai'r ysgol ystyried a yw'r plentyn yn ddigon aeddfed i ddeall ei hawliau. Os yw'r Cyngor yn hyderus y gall y plentyn ddeall ei hawliau, dylai ymateb yn uniongyrchol i'r plentyn. Fodd bynnag, gall y Cyngor ganiatáu i rieni arfer hawliau'r plentyn ar eu rhan os bydd y plentyn yn awdurdodi hyn, neu os yw'n amlwg y byddai hyn er lles gorau'r plentyn.

Yr hyn sy'n bwysig yw y gall y plentyn ddeall (yn fras) beth y mae gwneud cais gwrthrych am wybodaeth yn ei olygu a sut i ddehongli'r wybodaeth y byddant yn ei derbyn o ganlyniad i hynny. Wrth ystyried achosion sydd ar y ffin, dylai'r Cyngor ystyried (heb fod mewn unrhyw drefn benodol) ymysg pethau eraill:

- lefel aeddfedrwydd y plentyn a'i allu i wneud penderfyniadau fel hyn.
- natur y data personol
- unrhyw orchmynion llys perthnasol i fynediad neu gyfrifoldeb rhiant a allai fod yn berthnasol
- unrhyw ddyletswydd ffydd sy'n ddyledus i'r plentyn neu'r unigolyn ifanc.
- canlyniadau caniatáu i'r rhai hynny sydd a chyfrifoldeb rhiant gael mynediad at wybodaeth plentyn neu unigolyn ifanc Mae hyn yn arbennig o bwysig os bu honiadau o gamdriniaeth
- unrhyw golled/niwed i'r plentyn neu'r person ifanc os na chaiff unigolion â chyfrifoldeb rhiant weld y wybodaeth hon;
- unrhyw farn sydd gan y plentyn neu'r person ifanc o ran a ddylai eu rhieni gael mynediad at wybodaeth amdany'n nhw.

Yn yr Alban mae rhagdybiaeth fod rhywun 12 oed a throsodd yn ddigon hen ac aeddfed, oni bai y gellir profi i'r gwrthwyneb. Nid yw'r gyfraith yng Nghymru yn pennu oedran, a chaiff gallu ei asesu yn ddibynnol ar lefel dealltwriaeth y plentyn, ond mae'r gyfraith yn nodi ymdriniaeth resymol.³

¹ Mae Adran 12 Deddf Diogelu Data 2018 yn cyfyngu ar y ffioedd y gall Rheolyddion eu codi.

² Cymerwyd o ganllaw'r ICO ar GDPR 22 Mawrth 2018.

³ Mae'r prawf ar gymhwysedd Gillick hefyd yn ddefnyddiol yng nghyd-destun ceisiadau diogelu data.

Eithriadau

Gall yr ysgol hefyd, o dan y Ddeddf ac Erthygl 15 GDPR, wrthod ddatgelu data o dan y ddarpariaeth hawl gwrthrych i fynediad, lle mae'r prawf niwed difrifol wedi ei brofi o safbwynt datgelu data addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Adolygiadau

Gallai unigolion geisio adolygiad o benderfyniad i ddal gwybodaeth yn ôl a gellir gwneud hyn drwy gysylltu â'r Swyddog Hawl i Wybodaeth.

RHANNU GWYBODAETH

Mae rhannu gwybodaeth yn faes dyrys sy'n cwmpasu sawl statud ac yn aml iawn mae'r manylion ynghudd mewn deddfwriaeth eilaidd (megis gorchmynion neu offerynnau statudol). Rhaid gwneud penderfyniadau ynglŷn â rhannu gwybodaeth fesul achos ac ni fyddai'n bosibl bod ag un datganiad polisi i'w ddilyn gan swyddogion neu aelodau gan ei bod yn debygol y byddai hyn yn anghyfreithlon. Yn ogystal, mae dealltwriaeth o'r hyn sydd yn 'ganiatâd' yn ôl y gyfraith hefyd yn sylfaenol bwysig.

Fodd bynnag, dylai'r datganiadau canlynol egluro mythau neu gamddealltwriaethau cyffredin blaenorol ynglŷn â rhannu gwybodaeth:

Nid yw'r Ddeddf Diogelu Data yn atal, ac ni ddylid ychwaith ei gweld fel rhwystr i rannu gwybodaeth yn gyfreithlon.

Nid oes gofyniad cyfreithiol ar y Cyngor i fod â Phrotocol Rhannu Gwybodaeth ar waith er mwyn rhannu. Ni ddylai diffyg Protocol Rhannu Gwybodaeth fod yn rheswm dros beidio â rhannu gwybodaeth a allai helpu ymarferwr i ddarparu gwasanaethau ar gyfer unigolyn.

Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI), fodd bynnag ni fydd yn rhaid i WASPI fod wedi cymeradwyo pob trefniant rhannu gwybodaeth.

Nid yw caniatâd yn ragofyniad i rannu gwybodaeth – ond mae sawl trefn gyfreithiol (gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data) yn cadarnhau y bydd cael caniatâd dilys yn galluogi rhannu gwybodaeth yn gyfreithlon.

Mewn rhai amgylchiadau gellir, neu mae'n rhaid, diystyru'r cyfrinachedd sy'n ddyledus i unigolyn, er enghraifft os oes pryderon bod oedolyn diamddiffyn neu blentyn mewn perygl o ddiodef niwed difrifol neu arwyddocaol. Dilynwch y gweithdrefnau perthnasol yn ddi-oed.

Dros y dudalen mae saith rheol euraidd ar gyfer rhannu gwybodaeth, wedi'u hatgynhyrchu o gyhoeddiad Llywodraeth EM 'Information Sharing: Guidance for practitioners and managers' ac mae ar gael ar wefan yr Adran Addysg. Mae'r rheolau hyn yn cyd-fynd â'r egwyddorion WASPI yr ymrwymwyd iddynt gan y cyngor.

SAITH RHEOL EURAIDD

ar gyfer rhannu gwybodaeth

- 1. Cofiwch nad yw'r Ddeddf Diogelu Data yn rhwystr rhag rhannu gwybodaeth**, ond mae'n cynnig fframwaith i sicrhau fod gwybodaeth bersonol ynghylch pobl sy'n fyw yn cael ei rhannu'n briodol
- 2. Byddwch yn agored ac yn onest** gyda'r person (a/neu ei deulu, lle bo hynny'n briodol) o'r dechrau ynglŷn â pham, beth, sut a gyda phwy y bydd, neu y gellir rhannu gwybodaeth, a gofyn am eu cytundeb, oni bai ei bod yn anniogel neu'n amhriodol i wneud hynny.
- 3. Gofynnwch am gyngor** os oes unrhyw amheuaeth gennych, heb ddatgelu pwy yw'r unigolyn lle bo modd.
- 4. Rhannwch gyda chydysyniad lle bo'n briodol** a, lle bo modd, parchu dymuniadau'r rhai hynny nad ydynt yn cydsynio i rannu gwybodaeth gyfrinachol. Mae dal modd i chi rannu gwybodaeth heb gydsyniad os, yn eich barn chi, y gellir diystyru'r diffyg cydsyniad er budd y cyhoedd. Bydd angen i chi seilio eich barn ar ffeithiau'r achos.
- 5. Ystyriwch ddiogelwch a lles:** Seiliwch eich penderfyniadau ynghylch rhannu gwybodaeth ar ystyriaethau diogelwch a lles yr unigolyn a phobl eraill y gallai eu gweithredoedd effeithio arnynt.
- 6. Angenrheidiol, cymesur, perthnasol, cywir, amserol a diogel:** Sicrhewch fod y wybodaeth rydych yn ei rhannu yn angenrheidiol at y diben o'i rannu, ei fod yn cael ei rannu'n unig â'r bobl hynny sydd ei hangen, ei bod yn gywir ac wedi'i diweddarau, yn cael ei rhannu mewn modd amserol, ac yn cael ei rhannu'n ddiogel.
- 7. Cadwch gofnod** o'ch penderfyniad a'r rhesymau drosto – dim ots a ydych yn rhannu'r wybodaeth ai peidio. Os byddwch yn penderfynu rhannu, cofnodwch yr hyn rydych wedi ei rannu, gyda phwy ac at ba ddiben.

Ceisiadau gan drydydd partïon (e.e. yr Heddlu) am wybodaeth bersonol unigolyn).

O dro i dro efallai y bydd y Cyngor yn cael ceisiadau ffurfiol o dan y Ddeddf gan asiantaethau eraill neu drydydd partïon fel yr heddlu, DWP neu'r HMRC, cwmnïau cyfreithwyr ac ati i weld drostynt eu hunain neu dderbyn copi o wybodaeth yn ymwneud ag unigolyn. Nid yw'r adrannau hyn yn rhoi rheswm awtomatig i'r Cyngor dros ddatgelu i'r asiantaethau hyn, fel yr eglurir isod.

Mae'r Ddeddf yn delio â sawl sefyllfa pan gaiff data personol ei phrosesu am y rhesymau 'trosedd a threthiant' canlynol:

- atal neu ddatgelu trosedd.
- dal neu erlyn troseddwy; ac
- asesu neu gasglu trethi

Gellid datgelu'r data personol os yw'r datgeliad am unrhyw un o'r dibenion trosedd neu drethiant uchod a bod y dibenion yn 'debygol o gael eu peryglu' pe na bai'r Cyngor yn datgelu e.e. i'r heddlu neu gyllid y wlad. Yn yr achosion hyn mae'n rhaid i'r trothwy datgelu fod yn fwy na dim ond risg o beryglu ac mae'n rhaid bod siawns arwyddocaol a chryf y bydd y dibenion uchod yn cael eu peryglu. Dan y fath amgylchiadau byddech angen i'r trydydd parti nodi pa wybodaeth yr oeddent am ei gweld (neu wedi'i rhagweld) ac ar ba bwerau cyfreithlon y maen nhw'n dibynnu, a thystiolaeth o hunaniaeth. Ceisiwch gyngor gan y Tîm Gwybodaeth Fusnes neu'r Swyddog Diogelu Data.

Dylid osgoi datgelu gwybodaeth bersonol dros y ffon neu wyneb yn wyneb heb sefydlu hunaniaeth y derbynydd.

Dylai ceisiadau a wneir gan yr heddlu fod ar ffurflen safonol yr heddlu [nodwch yr enw/ rhif] y mae'n rhaid i swyddog heddlu o reng Sarsiant neu uwch fod wedi ei llofnodi. Os na dderbynnir y cais fel hyn, wedi ei gwblhau'n llawn, yna dylid ei gyfeirio yn ôl at yr ymgeisydd. Mae'n hanfodol bod gennym drywydd archwilio gyda rhesymau pam fod yr heddlu yn ystyried fod y prawf angenrheidrwydd yn berthnasol.

Ceisiadau am wybodaeth gan Aelodau Etholedig

Mae'r Ddeddf yn caniatáu datgelu gwybodaeth bersonol yn uniongyrchol i aelodau etholedig dan Atodlen 1, rhan 2, paragraffau 23 a 24 heb fynnu cael cydsyniad ysgrifenedig gan ddinesydd, lle mae'r Aelod yn gweithredu gydag awdurdod, mewn cysylltiad â cyflawni eu swyddogaethau fel cynrychiolwyr ac mewn ymateb i gais gan unigolyn fod y cynrychiolydd etholedig yn gweithredu ar eu rhan. Mae nodyn cyfarwyddyd ar gael ar gais gan y gwasanaethau cyfreithiol.

DELWEDDAU TCC

Mae system gorfforaethol TCC manau cyhoeddus Cyngor Sir Ddinbych yn cael ei rheoli ar hyn o bryd gan ddarparwr allanol a dylai pob cais o'r fath gan y cyhoedd am ddelweddau o'r fath gael eu gwneud i'r Tîm Gwybodaeth Busnes, a fydd yn cysylltu â'r darparwr. Mae delweddau TCC yn destun y Cod Ymarfer TCC, Deddf Diogelu Data 2018, a Deddf Rheoleiddio Grymoedd Archwilio 2000 o safbwynt ym mhle y caiff ei ddefnyddio fel rhan o guddwylio. Y Cyngor yw'r Rheolydd Data ar gyfer gwybodaeth o'r fath.

Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn defnyddio camerâu TCC cudd i gweladwy mewnol ac allanol wedi eu lleoli mewn ac ar eiddo sirol a rhai eiddo preswyl (fel cartrefi gofal) er mwyn diogelu ac atal troseddu, monitro ymwelwyr (gan gynnwys staff) a gwella trefniadau diogelu ac iechyd a diogelwch. Bydd yr holl staff yn cydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data ac yn cyflawni eu dyletswyddau, a gall methiant arwain at gamau disgyblu.

Pan mae TCC yn rhan o Gais Gwrthrych am Wybodaeth, bydd angen i ymgeiswyr fod yn benodol iawn ynglŷn ag amser ac ardal eu lleoliad gan na fyddai'r Cyngor fel arall yn gallu ymdrin â'r cais.

Gall gwasanaethau unigol, fel gwasanaethau parcio, wisgo camerâu delweddau ar eu corff, nad ydynt yn rhan o'r system a gafodd ei chaffael yn gorfforaethol ond mae'n dal rhaid iddynt gydymffurfio â'r Polisi Diogelu Data hwn.

Rhaid i unrhyw system TCC gydymffurfio â 12 egwyddor arweiniol Cod Ymarfer Comisiynydd Camera Gwyliadwriaeth mis Mehefin 2018 neu fel y'i diwygiwyd.

FFURFLENNI IECHYD GALWEDIGAETHOL

Bydd mwyafrif gwybodaeth bersonol staff a brosesir gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol yn cael ei dal dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a Deddf Mynediad i Gofnodion Iechyd 1990.

CYNLLUNIO RHAG ARGYFWNG

Mae'r canllawiau a roddir ar dudalennau 10 ac 11 ynghylch rhannu gwybodaeth yr un mor berthnasol yng nghyd-destun cynllunio rhag argyfwng a delio â darparu gwasanaethau hanfodol mewn ymateb i argyfwng. Nid yw Deddf Diogelu Data 2018 yn atal rhannu gwybodaeth, ac mae'n cyd-fynd â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004 – efallai yr hoffai swyddogion sydd angen canllawiau manylach (er ei fod yn cyfeirio at Ddeddf Diogelu Data 1998 nid 2018) gyfeirio at gyhoeddiad Llywodraeth EM 'Data Protection and Sharing' – Canllawiau ar gyfer Cynllunwyr ac Ymatebwyr Rhag Argyfwng a gofyn am gyngor, lle bo angen, gan gydweithwyr cyfreithiol.

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth sy'n rhoi hyder i unigolion y bydd eu data personol yn cael ei drin yn briodol ac na fydd yn cael ei gamddefnyddio. Ei swydd yw cydbwysu hawliau unigolion i breifatrwydd gyda defnydd cyfreithlon a chymesur o wybodaeth bersonol gan sefydliadau. Yng nghyd-destun cynllunio rhag argyfwng – ac, yn arbennig, yn dilyn argyfwng – mae'n bwysig edrych ar y cydbwysedd hwn yn gritigol ac yn realistig. Mae budd y cyhoedd yn debygol iawn o orchymyn rhannu gwybodaeth i helpu unigolion a effeithir arnynt yn uniongyrchol a'r gymuned ehangach dan y fath amgylchiadau. Yn wir, ein barn ni, ystyried y peryglon a'r niwed posibl a allai godi os na fyddant yn rhannu gwybodaeth, ddylai fod y man cychwyn i ymatebwyr mewn argyfwng. Rhaid i bob un ohonom weithio o fewn y gyfraith, ond dan yr amgylchiadau a amlinellir yn y canllawiau, teimlwn na ddylid defnyddio ansicrwydd fel esgus am beidio gweithredu pan ei fod yn amlwg er budd unigolion a'r cyhoedd yn gyffredinol i weithredu'n gadarnhaol"

Rhagair gan y Farwnes Ashton yng nghanllawiau anstatudol Llywodraeth EM 'Data Protection and Sharing' – Canllawiau ar gyfer Cynllunwyr ac Ymatebwyr rhag Argyfwng.

Bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cadw at y polisi hwn a bydd yn cadw mewn cof y cwestiynau eang, syml a ganlyn wrth gynllunio ac ymateb i argyfwng. Rhaid i swyddogion ystyried y cwestiynau a ganlyn yn ddidwyll ac os felly, dylent deimlo'n gyfforddus nad ydynt wedi mynd yn groes i'r Ddeddf:

- A yw datgelu'r wybodaeth yn annheg i'r unigolyn?
- Beth fyddai eich disgwyliadau yn yr argyfwng a wynebir?
- A yw'r Cyngor yn gweithredu er eu budd ac a yw rhannu'r wybodaeth hon er lles y cyhoedd?

Bydd dilyn yr egwyddorion cyffredinol hyn mewn argyfwng yn golygu fod y Cyngor yn annhebyg iawn i fod wedi gweithredu'n anghyfreithlon.

PROSESU DATA PERSONOL DRWY GWMNI ALLANOL

Beth am ein cyflenwyr allanol a'r Cyngor yn defnyddio cwmni allanol i brosesu data personol?

Mae'r Cyngor yn aml yn defnyddio sefydliadau trydydd parti i gyflawni rhai o'i swyddogaethau. Pan fod trefniadau 'cwmni allanol' yn cynnwys prosesu data personol, mae rhwymedigaethau cyfreithiol penodol yn codi. Mae'r dyletswyddau hyn yn fwy beichus rŵan o dan y GDPR nag o dan yr hen ddeddfwriaeth diogelu data, felly mae angen cymryd gofal ychwanegol wrth roi data personol i gyflenwyr trydydd parti. Os oes gennych unrhyw amheuon gofynnwch am gyngor. Dilynwch Reolau Gweithdrefn Contractau'r Cyngor sydd yn y Cyfansoddiad.

Mae'n bwysig fod y rhwymedigaethau a bennir ar y cyflenwr yn cael eu nodi mewn contract ysgrifenedig neu lythyr. Os defnyddiwyd Telerau ac Amodau Corfforaethol Safonol y Cyngor – mae'r rhain ar gael gan yr Uned Gaffael – yna mae'r rhwymedigaethau wedi eu hamlinellu'n barod.

P'run bynnag, lle mae gwybodaeth bersonol sensitif 'categori arbennig' yn cael ei datgelu i sefydliadau trydydd parti o'r fath, dylai gwasanaethau sicrhau bod y contractwr wedi ymrwmo i delerau busnes safonol y cyngor, er mwyn sicrhau bod ymrwymiad contract ar y cyflenwr i gadw at yr un rhwymedigaethau a ni.

Mae hefyd angen bod yn ofalus lle gallai'r cyflenwr hefyd fod yn Rheolydd Data ar y cyd (yn hytrach na phrosesydd data) a dylai'r telerau ac amodau contract adlewyrchu'r ymrwymadau hyn fel bod y cyflenwr yn cael ei ddal yn gyfrifol dan y gyfraith am dorri rheolau lle bo hynny'n briodol. Ceisio cyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol ar y telerau contract priodol.

Cyflwyno systemau newydd sy'n effeithio ar wybodaeth bersonol - beth ddylai'r Cyngor ei ystyried?

Wrth ddatblygu systemau gwybodaeth neu brosesau busnes newydd, neu wneud newidiadau i brosesau cyfredol sy'n ymwneud â gwybodaeth bersonol, mae'n orfodol erbyn hyn cynnal Asesiad o Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) a chynnwys ynddynt atebion preifatrwydd-gyfeillgar fel rhan o foderneiddio neu gyflwyno systemau newydd. Cyfeirir at hyn o dan y GDPR fel 'Preifatrwydd drwy Ddylunio a Rhagosod' a gall y DPIA fod yn arf defnyddiol o ran helpu i nodi risgiau a helpu'r Cyngor i reoli'r risgiau hynny a, lle bo hynny'n bosibl, eu dileu.

Mae gan y Cyngor dempledi safonol ar gyfer cynnal DPIAs fel y bydd gennych lwybr archwilio o sut yr ystyrioch effaith y system newydd ar ddata personol pobl. Mae'r rhain ar gael i staff y Cyngor ar adran Gwella Busnes a Moderneiddio ar y fewnwyd. Gellir ceisio arweiniad gan y tîm hwn ar ôl eu cwblhau.

HYSBYSIADAU PREIFATRWYDD

Mae gofyniad cyfreithiol i ddarparu hysbysiad preifatrwydd i unigolion wrth gasglu gwybodaeth bersonol. Gall y Tîm Gwybodaeth Busnes ddarparu enghreifftiau, lle nad yw hysbysiad ar y wefan gorfforaethol yn ddigon manwl.

DEFNYDD O E-BOST A DIOGELU DATA

Dylai staff y Cyngor ddefnyddio cyfrif e-bost awdurdodedig CSDd yn unig i gyfathrebu ynglŷn a busnes a swyddogaethau'r Cyngor. Ni ddylai staff dan unrhyw amgylchiadau ddefnyddio cyfrif e-bost personol i gyfathrebu gwybodaeth personol (mae hyn yn cynnwys staff tymor penodedig, dros-dro, llanw, asiantaeth a phob aelod arall o staff), a hynny er mwyn diogelu'r unigolion dan sylw. Yn ogystal, ni ddylai staff anfon data personol y cyngor i'w cyfeiriad e-bost personol eu hunain heb awdurdod a rheswm busnes dros wneud hynny. Gallai unrhyw aelod o staff sy'n cyfathrebu neu'n trosglwyddo data yn groes i'r polisi hwn wynebu camau disgyblu, a rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa lle mae'n adrodd am achosion o dorri rheolau gan y cyngor ei hun i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Dylid cyfathrebu gwybodaeth hynod sensitif drwy wasanaeth e-bost diogel fel Egress, neu system e-bost ddiogel lywodraethol gymeradwy fel TLS (Transport Layer Security).

Bydd Polisi Diogelwch Gwybodaeth y Cyngor hefyd yn berthnasol i'r defnydd o e-bost.

COFRESTR ASED AU GWYBODAETH

Rhaid i wasanaethau sicrhau fod eu hadran o'r 'Gofrestr Asedau Gwybodaeth' gorfforaethol wedi'i diweddarau'n llawn. Mae gofyniad cyfreithiol dan GDPR i'r Cyngor gynnal cofnod o'r fath, a fyddai'n cael ei adolygu o bryd i'w gilydd gan wasanaethau. Mae rhwymedigaeth ar y Cyngor i hunan-asesu ei lefelau cydymffurfiad a gall ond wneud hyn drwy wybod pa ddata y mae'n ei ddal, ble y caiff ei ddal, am ba hyd y bydd yn cael ei gadw, ac i bwy y caiff ei ddatgelu a chyfreithlondeb neu rymoedd i brosesu yn y lle cyntaf. Gydag unrhyw brosesu newydd neu systemau newydd neu ddata a gesglir, dylai gwasanaethau ystyried a oes angen diweddarau'r Gofrestr Asedau Gwybodaeth i adlewyrchu'r newid hwn, ynghyd ag ystyriaeth i gwblhau DPIA.

Mae'r Gofrestr ar gael i staff y Cyngor dan 'Apiau' ar fewnwyd y Cyngor.

AMSERLEN CADW DOGFENNAU CORFFORAETHOL

Mae hwn ar gael yn rhwydd i staff y Cyngor dan 'Apiau' ar fewnwyd y Cyngor ac mae'n nodi'r cyfnodau cadw gofynnol ar gyfer gwybodaeth personol ac amhersonol y Cyngor.

ACHOSION O DORRI RHEOLAU DIOGELWCH DATA

Rhaid rhoi gwybod ar unwaith, i'r Rheolwr Atebol sy'n gyfrifol am wybodaeth yn y gwasanaeth dan sylw, ynghylch unrhyw achosion lle torrwyd rheolau diogelu data, ac achosion lle bu hyn bron a digwydd. Bydd y Rheolwr Atebol wedyn yn rhoi gwybod i Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth y Cyngor ar unwaith drwy e-bost dataprotection@denbighshire.gov.uk er mwyn iddo ef/hi roi gwybod am y camau y bydd angen eu cymryd i gyfyngu ar unrhyw niwed ychwanegol a allai ddeillio o hyn, adfer unrhyw wybodaeth a gollwyd, a rhoi gwybod i unigolion a allai fod wedi cael eu heffeithio arnynt. Mae gan y Cyngor weithdrefn torri rheolau y bydd yn ei dilyn. Bydd cofnod ganolog o bob achos o dorri rheolau yn cael ei chadw gan yr uwch swyddog

hwn. Rhaid i'r Cyngor hysbysu Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am achosion difrifol o dorri rheolau o fewn 72 awr.

TREFNIADAU AROLYGU AC ADOLYGU'R POLISI

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu ddim hwyrach na mis Ionawr 2025. Bydd cydymffurfriad â'r polisi hwn a gweithdrefnau cysylltiedig yn cael ei fonitro gan y Swyddog Diogelu Data a'r Tîm Gwybodaeth Fusnes gan weithio gyda'r Swyddogion Rheoli Gwybodaeth o bob gwasanaeth, a Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth y Cyngor. Mae Adroddiadau gan y Tîm Gwybodaeth Fusnes a gweithgarwch y Cyngor dan yr holl Ddeddfwriaethau Gwybodaeth yn cael eu hadrodd yn flynyddol i Bwyllgor Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor lle bydd yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth a'r Swyddog Diogelu Data yn bresennol.

CWYNION

Gellir gwneud cais i'r Uned Wybodaeth am adolygiad o benderfyniad y Cyngor i *ddal gwybodaeth yn ôl* pan dderbynnir cais gwrthrych am wybodaeth, a byddant yn hwyluso adolygiad gan y Panel Hawl i Wybodaeth. Os caiff y penderfyniad ei gefnogi, a bod yr ymgeisydd yn dal i fod yn anfodlon, gall apelio i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir gwneud apelïadau yn erbyn penderfyniad y Comisiynydd Gwybodaeth i'r Tribiwnlys Gwybodaeth.

Byddwn yn ymdrin ag unrhyw gwynion gan unigolion ynghylch y ffordd mae'r Cyngor wedi *ymdrin* â gwybodaeth bersonol (e.e. os yw wedi colli gwybodaeth bersonol) drwy'r Polisi Cwynion Corfforaethol 'Eich Llais' neu Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dibynnu ar natur y wybodaeth. Mae ffurflenni cwynion ar gael o Swyddfeydd y Cyngor. Os yw'r achwynydd yn dal yn anfodlon, gellir gwneud cwyn yn uniongyrchol i swyddfa'r Ombwdsman.

MANYLION CYSWLLT

Swyddog Mynediad at Wybodaeth
Cyngor Sir Ddinbych
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN
E-bost: information@denbighshire.gov.uk

Eich Llais,
Cyngor Sir Ddinbych
Blwch Post 62
Rhuthun
LL15 9AZ

Ffôn: 01824 706000

Ar-lein: www.sirddinbych.gov.uk a dilyn y dolenni i'r ffurflen ar-lein 'Awgrymiadau, canmolïaeth a chwynion'

Neu gallwch ddweud yn bersonol wrth un o'r staff mewn [Siop Un Alwad](#)

Y Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545745
www.informationcommissioner.gov.uk

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru
Mae'r tîm WASPI ar hyn o bryd wedi'i leoli gyda'r awdurdod iechyd ac mae eu
manyion cyswllt ac ISPs byw ar gael ar eu gwefan www.waspi.org

Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth Cyngor Sir Ddinbych (SIRO)
Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Lefel 3
Neuadd y Sir,
Ffordd Wynnstay,
Rhuthun,
Sir Ddinbych
LL15 1YN
Ffôn: 01824 706000

Swyddog Diogelu Data Cyngor Sir Ddinbych/
Dirprwy Swyddog Monitro
Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Lefel 2
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN
Ffôn: 01824 706000

ATODIAD: PANEL HAWL I WYBODAETH

Cylch Gorchwyl

Aelodau'r panel:

- Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
- 1 x Pennaeth Gwasanaeth
- Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth
- Swyddog Diogelu Data
- Rheolwr Gwella Gwasanaeth

Mae cworwm yn y panel pan fod o leiaf un aelod ac un aelod wedi ymgymhwyso yn y gyfraith yn bresennol; caniateir presenoldeb o bell hefyd.

Rôl a Phwrpas

Diben y Panel Mynediad at Wybodaeth yw dod i benderfyniadau ar ddatgelu neu ddal gwybodaeth yn ôl ar ôl derbyn cais am wybodaeth dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth, gan gynnwys datgeliadau dan y Ddeddf Diogelu Data. Nid diben y Panel yw creu haen ychwanegol fiwrocratiaeth, ond yn hytrach i sicrhau dull cyson ym mhob maes datgelu ar draws y Cyngor, gyda phwyslais ar lywodraeth agored a thryloywder, er mwyn cynyddu hyder y cyhoedd ym mhenderfyniadau'r Cyngor, ond hefyd ei rwymedigaethau i ddiogelu gwybodaeth bersonol. Bydd hefyd yn cynnig y dewis i Wasanaethau gael cyfeirnod i'r Panel lle eu bod yn ystyried fod eithriad yn berthnasol, yn erbyn barn y Tîm Gwybodaeth Fusnes.

Bydd y Panel yn gwneud penderfyniadau ynghylch y canlynol:

- Penderfyniadau dadleuol, sensitif iawn neu uchel iawn eu proffil o ran esemptiadau.
- Ceisiadau am adolygiad o benderfyniad cychwynnol lle mae'r DPO neu'r SIRO yn ystyried ei bod yn briodol i gael cyfeiriad i'r panel hwn.
- Cyfeiriadau gan Wasanaeth sy'n benodol eisiau i'r Panel benderfynu ar y mater.

Ni fydd y Panel yn gwneud penderfyniadau ynghylch y canlynol:

- Dileu gwybodaeth bersonol trydydd parti yn syml.
- Esemptiadau sy'n amlwg yn berthnasol i'r cais ym marn Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol a Democrataidd, y Swyddog Diogelu Data, y SIRO neu'r Tîm Gwybodaeth Fusnes ac na fydd angen adnoddau cyfarfod panel arnynt.

Telerau aelodaeth

Mae'n un o amodau aelodaeth y panel fod holl aelodau'r panel yn derbyn hyfforddiant ar Ddeddfwriaeth Gwybodaeth er mwyn deall a gweithredu'r esemptiadau yn gywir.

Ni all aelod llawn o'r panel ddirprwyo ei gyfrifoldeb i Swyddog arall nad yw'n aelod o'r panel.

Lle bo gwrthdaro buddiannau yn effeithio ar benderfyniadau aelod o'r pwyllgor, rhaid iddynt roi gwybod i'r panel am y cysylltiad hwn a pheidio a chymryd rhan yn y penderfyniad. Gallant dynnu eu het i ffwrdd fel aelod o'r panel a gwneud sylwadau o'u gwasanaeth, ond ni chânt bleidleisio ar y mater.

Bydd aelodau'r panel yn cadw manylion personol yr ymgeisydd yn gyfrinachol ac unrhyw wybodaeth gyfrinachol maent yn dyst iddi, yn eu rhinwedd fel aelodau'r panel.

Cworwm

Bydd y Panel ond â chworwm pan fod o leiaf un swyddog â chymhwyster cyfreithiol yn bresennol ac o leiaf un aelod arall o'r panel.

Lle bo modd, bydd y Panel yn ceisio dod i benderfyniad unfrydol. Lle na chaiff hyn ei gyflawni, bydd gan bob aelod un pleidlais. Bydd unrhyw fater yn cael ei ddatrys drwy fwyafrif syml o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

Prosesau a Gweithdrefnau

Bydd cyfeiriad i'r Panel Hawl i Wybodaeth yn cael ei wneud drwy'r Tîm Gwybodaeth Busnes, a fydd yna'n gwneud trefniadau i'r Panel gwrdd, gan ystyried y terfynau amser statudol y mae angen i'r Gwasanaeth ymdrin â'r cais y tu mewn iddynt.

Efallai y bydd yr adran sy'n dymuno dibynnu ar yr esemptiad yn cael eu gwahodd i'r panel, ond nid yw eu presenoldeb yn orfodol.

Bydd aelodau'r Panel Hawl i Wybodaeth yn gwneud eu gorau i fod yn bresennol mewn cyfarfodydd brys lle mae angen ac nad oes modd ei osgoi; fodd bynnag, rhaid rhoi rhybudd rhesymol i aelodau'r Panel. Os yw'n briodol, mae'n bosibl y caiff penderfyniadau brys eu gwneud yn electronig, cyn belled nad yw'r cais yn un cymhleth ac nad oes rhaid i'r adran sy'n dymuno dibynnu ar yr esemptiad fod yn bresennol.

a.36 Esemptiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yw unig aelod y panel ar gyfer penderfyniadau a.36, a bydd yn ymgynghori a chofnodi'r mater cyn y panel, ac yn ystyried barn y panel, ac unrhyw berson perthnasol arall, cyn gwneud penderfyniad terfynol dan yr adran hon.